Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Options Kinsale

# Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2021

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Options Kinsale

Agorwyd Ysgol Options Kinsale yn 2007. Mae'r ysgol yn rhan o grŵp Outcomes First sy'n ceisio darparu gwasanaethau addysg a phreswyl integredig ar gyfer pobl ifanc ac oedolion ag anhwylder y sbectrwm awtistiaeth (ASA), anawsterau dysgu cymedrol a difrifol, ac anawsterau cymdeithasol ac emosiynol.

Mae Ysgol Options Kinsale yn cynnig addysg a gofal preswyl ar gyfer hyd at 30 o ddisgyblion rhwng 8 ac 19 oed sydd ag anghenion cymhleth ac wedi cael diagnosis o ASA. Mae gan yr ysgol 22 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd. Mae awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr yn lleoli disgyblion yn yr ysgol. Mae gan bob disgybl ddatganiad o anghenion addysgol arbennig (AAA) neu gynllun addysg, iechyd a gofal (CAIG). Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn blant sy'n derbyn gofal ac mae llawer ohonynt yn byw yng nghartrefi plant y cwmni. Mae ychydig o'r disgyblion sy'n mynychu'r ysgol yn ddisgyblion dydd. Mae llawer o ddisgyblion o gefndiroedd Saesneg.

Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd er mis Tachwedd 2019. Cefnogir y pennaeth gan dîm addysg sy'n cynnwys pump o athrawon dosbarth, tri chynorthwyydd addysgu lefel uwch, ac un deg tri o gynorthwywyr cymorth dysgu.

Ymwelodd arolygwyr â'r ysgol ddiwethaf ar gyfer ymweliad monitro ym mis Medi 2019, yn dilyn arolygiad craidd ym mis Medi 2018.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

Yn yr un modd â phob ysgol, mae'r ysgol wedi wynebu heriau sylweddol dros y 18 mis diwethaf o ganlyniad i'r pandemig. Mae staff wedi dangos ymrwymiad mawr i sicrhau bod yr ysgol wedi aros ar agor yn ffisegol i ddarparu amgylchedd gofalgar a diogel ar gyfer ei disgyblion trwy gydol y cyfnod hwn, bron.

Mae disgyblion yn ymateb yn dda i ymagwedd ofalgar ac ymroddgar y staff. Dros amser, mae'r perthnasoedd gweithio cryf rhwng disgyblion a staff yn helpu gwella hyder a lles disgyblion. Mewn gwersi, mae llawer o ddisgyblion wedi'u cymell yn dda ac yn ymgysylltu'n dda â dysgu. O gymharu â'u mannau cychwyn, mae llawer ohonynt yn gwneud cynnydd cadarn o ran datblygu eu gwybodaeth a'u medrau.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth sicr ac effeithiol ar gyfer yr ysgol. Ers iddi gael ei phenodi yn fuan ar ôl yr ymweliad monitro diwethaf ym mis Medi 2019, mae wedi cynyddu trylwyredd a llywodraethu'r ysgol yn llwyddiannus. Mae hyn wedi galluogi'r ysgol i wneud cynnydd cadarn yn erbyn yr argymhellion o'r arolygiad craidd a'r ymweliad monitro.

### Meysydd i'w datblygu

At ei gilydd, mae gormod o amrywioldeb yn ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol. O ganlyniad, nid yw'r ysgol yn bodloni Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003 yn llawn.

Mae'r ysgol yn elwa ar gymorth tîm clinigol sy'n cynnwys seicotherapydd clinigol, therapydd galwedigaethol, a thri chynorthwyydd therapi. Caiff yr ysgol gymorth pellach gan therapydd lleferydd ac iaith am ddiwrnod yr wythnos. Mae'r tîm hwn yn gweithio'n agos gyda'r tîm addysg i lywio cynlluniau cymorth ymddygiad cadarnhaol disgyblion a chyfrannu at adolygiadau o gynnydd disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r gwaith hwn yn llywio arfer staff addysgu yn yr ystafell ddosbarth yn ddigon cyson. O ganlyniad, nid yw ychydig o ddisgyblion ag anghenion mwy cymhleth yn ymgysylltu â'u dysgu mor llwyddiannus ag y gallent.

Mae gan yr ysgol ystod lawn o bolisïau ar waith i gefnogi gwaith staff. Yn gyffredinol, mae'r rhain yn gynhwysfawr ac yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol yn gysylltiedig â'r maes polisi. Fodd bynnag, mae ychydig o bolisïau yn rhy generig ac nid ydynt yn adlewyrchu cyd-destun penodol yr ysgol yn ddigon da. At ei gilydd, nid yw polisïau yn rhoi ystyriaeth ddigonol i ganllawiau Llywodraeth Cymru.

## Argymhellion

Dylai'r ysgol:

A1 Gydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003

A2 Sicrhau bod gwaith y tîm clinigol yn llywio'r cymorth y mae staff yn ei ddarparu ar gyfer disgyblion yn well fel bod pob un o'r disgyblion yn ymgysylltu'n fwy cyson â dysgu

A3 Sicrhau bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau yn adlewyrchu cyd-destun penodol yr ysgol ac yn cyfeirio'n addas at ganllawiau Llywodraeth Cymru

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

**Argymhelliad 1: Cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003**

Ers yr ymweliad monitro diwethaf ym mis Medi 2019, mae'r ysgol wedi cymryd camau addas i fodloni Rheoliad 1(2) y Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) trwy sicrhau bod y polisi cwricwlwm yn cael ei gefnogi gan gynlluniau gwaith effeithiol sy'n cael eu rhoi ar waith yn llwyddiannus.

Er bod yr ysgol yn bodloni bron pob un o'r gofynion rheoleiddio ar gyfer Safon 1 y Rheoliadau (Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol), er mwyn cydymffurfio'n llawn â'r Rheoliadau, dylai'r ysgol sicrhau:

- bod gwersi'n cael eu cynllunio'n dda, dulliau addysgu yn effeithiol a gweithgareddau addas yn cael eu defnyddio, a bod amser dosbarth yn cael ei ddefnyddio'n ddoeth 1(3)(c)
- bod staff addysgu yn dangos dealltwriaeth dda o ddyheadau, anghenion a chyraeddiadau blaenorol y disgyblion, a sicrhau bod y rhain yn cael eu hystyried wrth gynllunio gwersi 1(3)(d)

**Argymhelliad 2: Rhoi systemau effeithiol ar waith i olrhain cynnydd disgyblion mewn dysgu ar draws ystod ehangach o fedrau**

Mae'r ysgol wedi mireinio a datblygu ei defnydd o'r system olrhain a gyflwynwyd ar ôl yr arolygiad craidd i fonitro cynnydd disgyblion mewn dysgu ar draws ystod ehangach o fedrau.

Erbyn hyn, caiff asesiadau disgyblion rheolaidd yn gwerthuso cynnydd pob disgybl yn unol â deilliannau dysgu a thargedau'r cynllun addysg unigol (CAU) eu cofnodi ar daflenni olrhain cynnydd manwl. Mae athrawon dosbarth yn adolygu'r rhain bob hanner tymor, ac yn rhannu cynnydd gyda disgyblion unigol a'u rhieni a'u gofalwyr. Mae arweinwyr yn monitro, yn dadansoddi ac yn trafod cynnydd yn rheolaidd gyda staff addysgu ar lefel disgybl, dosbarth ac ysgol gyfan. Mae'r wybodaeth hon yn helpu'r ysgol i ddathlu cyflawniadau disgyblion yn well, a gweithredu'n brydlon, lle bo'n briodol, os yw cynnydd yn arafach na'r disgwyl. Hefyd, mae'n dechrau gwneud cyfraniad pwysig at lywio cynllunio a gwerthuso ysgol gyfan athrawon.

**Argymhelliad 3: Gwella ansawdd cynllunio tymor hir athrawon ar draws y cwricwlwm**

At ei gilydd, mae staff addysgu wedi gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i wella ansawdd cynllunio tymor hir ar draws yr ysgol.

Ailgynlluniwyd polisi cwricwlwm a chynlluniau gwaith yr ysgol i ddarparu cwricwlwm mwy teilwredig ar gyfer yr ysgol, gyda llwybrau dysgu unigoledig. Mae llawer o staff addysgu yn defnyddio'r strwythur hwn a'r wybodaeth hon yn sicr i gefnogi eu cynllunio dyddiol, wythnosol a thymor hir. Maent yn sicrhau bod testunau,

gweithgareddau ac adnoddau wedi'u cysylltu'n agos â thargedau, anghenion a diddordebau unigol disgyblion, sy'n helpu disgyblion i wneud cynnydd addas.

Yn y gwersi a arsylwyd yn ystod yr ymweliad hwn, at ei gilydd, roedd gormod o amrywiad o ran sut roedd staff addysgu'n cynllunio a chyflwyno gweithgareddau i fodloni anghenion dysgu disgyblion unigol. Er enghraifft, ni weithredir y strategaethau cymorth cynradd a nodwyd yn gyson bob amser, yn cynnwys defnydd prin, os o gwbl, o fyrddau nawr a nesaf neu ddulliau cyfathrebu unigoledig, fel ffafriaeth ar gyfer defnyddio Cymraeg iaith gyntaf. Hefyd, mae'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau corfforol disgyblion fel mater o drefn yn anghyson.

**Argymhelliad 4: Sicrhau bod staff cymorth dysgu yn cael yr hyfforddiant a'r r medrau sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu rolau yn effeithiol**

Ers yr arolygiad diwethaf, mae arweinwyr wedi cymryd camau addas i wella'r ddarpariaeth hyfforddiant ar gyfer staff cymorth. Mae staff yn siarad yn gadarnhaol am y buddsoddiad yn eu hyfforddiant a'u datblygiad proffesiynol.

Mae staff wedi cael hyfforddiant ar destunau fel cyfathrebu, ffoneg, rhyngweithio dwys, diogelu a rôl cynorthwyydd addysgu. Dywed staff fod arweinwyr wedi teilwra hyfforddiant i gyd-destun penodol yr ysgol i sicrhau ei fod yn ystyrlon a bod staff yn gallu cymhwyso'r hyn y maent wedi'i ddysgu i'w harferion dyddiol.

Mae llawer o'r hyfforddiant hwn wedi digwydd yn ddiweddar, ac mae'n rhy gynnar i asesu'r effaith ar arferion ystafell ddosbarth yn llawn. Hefyd, mae lleiafrif o gynorthwywyr addysgu yn newydd yn eu rôl ac nid ydynt wedi cael cyfle eto i fanteisio'n llawn ar yr hyfforddiant hwn. Megis dechrau datblygu y mae cyfleoedd i gynorthwywyr addysgu ddatblygu eu rolau a'u gyrfaoedd.

**Argymhelliad 5: Cryfhau prosesau ar gyfer sicrhau ansawdd, hunanwerthuso a chynllunio gwelliant**

Mae'r pennaeth wedi cryfhau prosesau ar gyfer sicrhau ansawdd, hunanwerthuso a chynllunio gwelliant yn sylweddol. Mae hi wedi rhoi gweithdrefnau cadarn ar waith ar gyfer asesu a chymedroli gwaith disgyblion ac adolygu targedau disgyblion. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd addas i ddisgyblion gwblhau achrediad perthnasol, lle bo'n briodol.

Mae'r pennaeth yn meddu ar ddealltwriaeth glir o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w datblygu. Mae meysydd i'w datblygu a nodwyd yn cysylltu'n dda â blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella. Mae'r ysgol yn elwa ar gymorth a her reolaidd gan gorff llywodraethol yr ysgol a chan ymgynghorwyr allanol. Mae'r trefniadau hyn yn helpu'r ysgol i wneud cynnydd cadarn yn erbyn yr argymhellion o'r ymweliad blaenorol.

Megis dechrau datblygu y mae trefniadau i gynnwys ystod ehangach o randdeiliaid ym mhrosesau hunanwerthuso'r ysgol. Caiff disgyblion a rhieni gyfleoedd addas i fynegi eu barn mewn adolygiadau blynyddol a chyfarfodydd rheolaidd, a chaiff disgyblion eu cynorthwyo i fynegi ffafriaethau a gwneud dewisiadau am eu hamserlen. Fodd bynnag, nid yw trefniadau i gasglu barn rhanddeiliaid am y ddarpariaeth ar lefel strategol neu ysgol gyfan wedi eu datblygu'n ddigonol.

## Argymhelliad 6: Sicrhau trefniadau arwain a staffio yn yr ysgol

Ers yr arolygiad craidd ym mis Medi 2018, ac yn y cyfnod yn union ar ôl yr ymweliad monitro ym mis Medi 2019, bu sawl newid allweddol o ran staff yn yr ysgol a'r tîm clinigol, yn cynnwys ymhlith tîm arweinyddiaeth yr ysgol.

Ers ei phenodi ym mis Tachwedd 2019, mae'r pennaeth wedi adolygu strwythur staffio'r ysgol i gryfhau arweinyddiaeth ac addysgu yn yr ysgol. Mae dau uwch arweinydd yn darparu goruchwyliaeth effeithiol o'r addysgu a'r dysgu ar gyfer y disgyblion ym mhob adran o'r ysgol, ac mae cyflwyno tîm staff craidd ar gyfer pob dosbarth yn helpu hyrwyddo cysondeb ar gyfer disgyblion ym mhob dosbarth. Hefyd, mae'r pennaeth wedi penodi tri chynorthwyydd addysgu lefel uwch i gymryd cyfrifoldeb am feysydd penodol o'r cwricwlwm a medrau (y celfyddydau creadigol, medrau byw yn annibynnol, a thechnoleg bwyd) sy'n helpu gwella cynllunio a phrofiadau dysgu yn y meysydd hyn.

Mae'r pennaeth wedi cynyddu nifer y cynorthwywyr addysgu i gynorthwyo disgyblion yn eu dysgu, ac wedi cryfhau'r hyfforddiant sydd ar gael iddynt. Fodd bynnag, nid yw'r tîm hwn wedi'i staffio'n llawn ac mae staff gofal yn parhau i ddarparu cymorth ychwanegol ar gyfer disgyblion yn eu habsenoldeb. Yn ychwanegol, mae staffio'r tîm clinigol yn parhau i fod yn ansefydlog. O ganlyniad, ni all staff addysgu fanteisio'n gyson ar gyngor gan y tîm clinigol i gefnogi eu gwaith wyneb yn wyneb gyda disgyblion.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

**Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol**

Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon yn llawn. Er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003, dylai'r ysgol sicrhau:

- bod gwersi'n cael eu cynllunio'n dda, dulliau addysgu yn effeithiol a gweithgareddau addas yn cael eu defnyddio, gan reoli amser dosbarth yn ddoeth 1(3)(c)
- bod staff addysgu yn dangos dealltwriaeth dda o ddyheadau, anghenion a chyraeddiadau blaenorol y disgyblion, a sicrhau bod y rhain yn cael eu hystyried wrth gynllunio gwersi 1(3)(d)

**Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 2.

**Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 4.

**Safon 5: Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

**Safon 6: Darparu gwybodaeth**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 7: Y modd yr eir i'r afael â chwynion**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 7.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Llywodraeth Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Nid yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003 ar hyn o bryd. I gydymffurfio'n llawn â'r gofynion hyn, dylai'r ysgol fynd i'r afael â'r materion a nodwyd uchod ar gyfer pob safon.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad cyfyngedig hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag adran 163 Deddf Addysg 2002. Prif ddiben arolygu o dan yr adran hon yw adrodd ar gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol 2003. Mewn ysgolion sy'n darparu addysg feithrin nas cynhelir, mae'r adroddiad hwn hefyd yn bodloni gofynion Atodlen 26 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ

Dyddiad cyhoeddi: 31/01/2022